# Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

## Cynnig heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd ar 28 Mehefin 2001

**NNDM717 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad:

1. Yn nodi’r ymgynghori a fu ar gyfer adolygu gwasanaethau cynorthwyo a datblygu busnesau yng Nghymru.

2. Yn cymeradwyo argymhellion y Cabinet (a ebostiwyd at Aelodau ar 26 Mehefin 2001), yn arbennig yr argymhelliad y dylid rhoi rhan flaenllaw i Awdurdod Datblygu Cymru, gan ymgynghori’n llawn â’i bartneriaid, ar gyfer cydlynu’r gwasanaethau cynghori a chynorthwyo a ariennir gan y sector cyhoeddus

3. Yn gwahodd Awdurdod Datblygu Cymru i roi cynigion gerbron y Gweinidog Datblygu Economaidd erbyn canol mis Hydref ar sut y gallai gyflawni’r rôl hon.

4. Yn gofyn i’r Gweinidog Datblygu Economaidd i gyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd erbyn diwedd mis Hydref ar ei ymateb i argymhellion adolygiad y Pwyllgor o’r Gwasanaethau Cynorthwyo a Datblygu Busnesau ynghylch creu Bwrdd Polisi Economaidd ac Uned Ymchwil, Monitro a Gwerthuso Economaidd

5. Yn gofyn i’r Gweinidog Datblygu Economaidd gyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar hynt rhoi’r argymhellion ar waith.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 2 Gorffennaf 2001

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau a ganlyn i’r cynigion uchod:

**NNDM717**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu at ddiwedd Pwynt 4:

…gan gynnwys strwythur daearyddol ar gyfer gwasanaethau sy’n cynorthwyo busnesau ac sy’n darparu mynediad cyfleus i gwsmeriaid ar sail ranbarthol yng Nghymru.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu at ddiwedd Pwynt 5:

…ac ar y cynnig am Ombwdsmon Busnes.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu'n bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi methiant y mesurau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'n ddigonol y busnesau hynny yr effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau.

**4. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ar ddechrau Pwynt 2 newid y gair "Cymeradwyo" i "Nodi"

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu at ddiwedd Pwynt 2 "ond yn galw ar Lywodraeth Cymru i bennu dyddiad ar gyfer adolygu'r cyfrifoldeb am Fasnach Cymru Rhyngwladol ac i ddilyn yr egwyddor a bennwyd yn yr Adolygiad o Gymorth i Fusnesau (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2001) sy'n nodi mai'r WDA ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau busnes ac y dylai'r Cynulliad roi'r gorau i ddarparu cymorth i fusnesau yn uniongyrchol."

**6. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd at ddiwedd y cynnig

"Yn cefnogi'r argymhelliad mai'r WDA ddylai reoli'r Porth Cymorth i Fusnesau, ond yn galw am ailfrandio er mwyn helpu i adennill hyder busnesau."

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

"Yn galw ar i'r WDA sicrhau sefydliadau'r sector preifat y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd tryloyw pan fo posibilrwydd y ceir gwrthdaro buddiannau."

**8. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

"Yn galw ar yr WDA i ddefnyddio'r sector preifat, lle bynnag y bo modd, i weithredu ei

gynlluniau cynorthwyo busnesau."